# Posteri Etholiadol

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

25 Medi 2014

## Cais am Wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 18 Medi, pan wnaethoch ofyn,

*A allaf wneud cais am y wybodaeth ganlynol:*

*a) Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y defnydd o bosteri etholiadol y tu mewn i'r Senedd?*
*b) Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y defnydd o bosteri etholiadol sydd wedi'u gosod ar du allan y Senedd?*
*c) Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddefnyddio posteri etholiadol neu negeseuon gwleidyddol a osodir ar y ffenestri ar ystâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cadw at ddidueddrwydd gwleidyddol llym.
Mae canllawiau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff, a gyhoeddir ar ein tudalennau mewnrwyd, yn nodi bod:

> *Y diffiniad o 'Adnoddau'r Cynulliad' yn cynnwys unrhyw beth a ddarperir gan y Cynulliad i Aelodau ac a dalwyd o gronfeydd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o lwfansau, staff cymorth, cyfleusterau a ddarperir gan Gomisiwn y Cynulliad ac unrhyw waith a wneir gan staff y Comisiwn i gynorthwyo'r Aelodau.*
>
> ***Gweithgareddau gwaharddedig***


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8635
E-bost/Email: Buddug.Saer@cymru.gov.uk


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

- *Darperir adnoddau'r Cynulliad i gynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau yn y Cynulliad. Ni ddylid defnyddio adnoddau'r Cynulliad am y rhesymau canlynol:*
- *Cyfathrebu personol, busnes neu fasnachol; codi arian i blaid wleidyddol, recriwtio aelodau plaid a threfnu a rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd o bleidiau gwleidyddol; ac*
- *Ymgyrchu ar gyfer ethol neu ailethol ymgeiswyr penodol ar gyfer swydd gyhoeddus (yn cynnwys yr Aelod sy'n defnyddio'r adnoddau), waeth p'un a yw'r swydd yn aelodaeth o'r Cynulliad neu unrhyw gorff arall.*

Ceir y darn uchod o destun yn y Canllawiau i Aelodau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Cynulliad.

Felly, ni fyddai caniatâd yn cael ei roi i osod posteri sy'n hyrwyddo ethol ymgeiswyr neu bleidiau y tu mewn nac y tu allan i adeilad y Senedd, nac ychwaith ar ffenestri ystâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rydym hefyd yn cyhoeddi amodau mynediad y Senedd ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n datgan 'na chaniateir baneri, placardiau a phosteri yn yr adeilad'.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF